
# Deddf Galluedd Meddyliol 2005

## Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud am gynorthwyo pobl i wneud penderfyniadau am eu bywydau



Hawdd ei Ddarllen

Llyfryn hawdd ei ddarllen

# Beth mae'r llyfryn hwn yn ei ddweud wrthych am



Mae angen cymorth ar rai pobl i wneud penderfyniadau am eu bywydau neu gallent fod yn **brin o allu** i wneud penderfyniadau.



**Mae bod yn brin o allu** yn golygu nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniad am eu bywydau ar yr adeg pan fydd angen i'r penderfyniad gael ei wneud.

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 **yn gyfraith** yng Nghymru a Lloegr. Mae'n dweud sut y dylid rhagdybio bod pobl sy'n 16 oed neu'n hŷn





- **â** gallu i wneud penderfyniadau am eu bywydau. **Mae rhagdybio** yn golygu credu bod rhywbeth yn wir heb wirio.
- wedi cael cymorth i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain pryd bynnag y bo'n bosibl.
- yn cymryd rhan mewn penderfyniadau y mae pobl eraill yn eu gwneud drostynt.
- yn gallu paratoi ar gyfer amser yn y dyfodol pan allent fod a phrinder gallu i wneud penderfyniadau am eu bywydau.






Mae **deddf** yn rheol sy'n amddiffyn pobl ac yn sicrhau bod pawb yn cael eu trin mewn ffordd dda a theg.





Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn dweud bod yn rhaid i **God Ymarfer** gael ei ysgrifennu. Llyfr yw'r **Cod Ymarfer** sydd â gwybodaeth ddefnyddiol am ddeddf.




Canllaw yw Cod Ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol 2005 i unrhyw un sy'n gweithio gyda neu'n gofalu am bobl sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniadau am eu bywydau.




Mae'r llyfryn hwn yn grynodeb **Hawdd ei Ddarllen** o God Ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol 2005 . Mae **crynodeb** yn golygu fersiwn fyrrach.




Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cael ei galw y **Ddeddf** yn fyr yn y llyfryn hwn. Mae'r Cod Ymarfer yn cael ei alw y **Cod** yn fyr yn y llyfryn hwn.

# Ynglŷn â'r Ddeddf




Mae'r Ddeddf yn dweud sut mae pobl sy'n 16 oed neu.n hŷn yn gallu gwneud penderfyniadau am eu bywydau, a sut y gellir gwneud penderfyniadau ar ran pobl sydd â phrinder gallu.



Mae'r Ddeddf yn dweud bod yn rhaid rhoi cyfle i bobl wneud eu penderfyniadau eu hunain os byddant yn gallu.




Mae'r Ddeddf am **rymuso** a diogelu pobl a allai fod â phrinder gallu.



**Mae grymuso** yn golygu rhoi'r cymorth cywir i bobl er mwyn iddynt wneud penderfyniadau da am eu bywydau.




Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n gweithio gyda neu'n gofalu am unigolyn sydd â phrinder gallu ddilyn yr hyn mae'r Ddeddf yn ei ddweud wrth wneud penderfyniadau am fywyd yr unigolyn.



Mae'n rhaid dilyn y Ddeddf ar gyfer penderfyniadau bach a mawr.



Gallai penderfyniadau bach fod yn bethau megis dewis beth i'w wisgo neu beth i'w brynu yn yr archfarchnad.



Gallai penderfyniadau mawr fod yn bethau megis pryd i symud i gartref gofal neu a ddylid cael llawdriniaeth fawr.



Mae rhai penderfyniadau sydd byth yn gallu cael eu gwneud gan rywun arall. Gallwch ddarllen am y penderfyniadau hyn yn adrannau 27 i 29 ac adran 62 y Ddeddf.

# Ynglŷn â'r egwyddorion statudol



Yr **egwyddorion statudol** yw 5 prif syniadau cynnwys y Ddeddf.

**1.** Mae gan bob unigolyn yr hawl i wneud penderfyniadau am eu bywydau os byddant yn gallu.



**2.** Mae'n rhaid i chi gynorthwyo'r unigolyn i wneud y penderfyniad os byddant yn gallu.

**3.** Os bydd unigolyn yn gwneud penderfyniad gwael am eu bywyd nid yw'n golygu eu bod â phrinder gallu.



**4.** Os byddwch yn gwneud penderfyniad ar ran unigolyn sydd â phrinder gallu mae'n rhaid mai dyma'r penderfyniad gorau iddynt.

**5.** Os byddwch yn gwneud penderfyniad ar ran unigolyn sydd â phrinder gallu mae'n rhaid iddo beidio â'u cyfyngu na chymryd eu **hawliau a rhyddid i ffwrdd**.




**Hawliau a rhyddid** yw'r hawliau dynol sylfaenol y dylai fod gan bob unigolyn ar gyfer eu bywyd cyfan, megis tegwch a chydraddoldeb.

# Ynglŷn â helpu pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain



Mae'r Ddeddf yn dweud bod yn rhaid rhoi cyfle i bobl wneud eu penderfyniadau eu hunain os byddant yn gallu.




I helpu rhywun i wneud eu benderfyniad eu hun mae'r Ddeddf yn dweud bod yn rhaid i chi wirio os

- oes ganddynt yr holl wybodaeth.
- oes ganddynt wybodaeth am ddewisiadau gwahanol.




- gallai unrhyw un arall fel eu teulu eu helpu i ddeall.
- gallai'r wybodaeth gael ei rhoi mewn ffordd wahanol megis mewn lluniau.




- byddent yn fwy cyfforddus mewn lle gwahanol neu ar adeg wahanol.
- gallech aros tan adeg ddiweddarach pan y gallai fod yn haws.

# Ynglŷn â gallu




Yn y Cod, mae bod â gallu yn golygu bod unigolyn yn gallu gwneud penderfyniad am eu bywyd ar yr adeg mae angen i'r penderfyniad gael ei wneud.



Dylech feddwl bob amser fod gan unigolyn allu i wneud penderfyniad am eu bywyd, oni bai y dangosir nad oes ganddynt.




Os ydych yn meddwl bod unigolyn yn brin o allu i wneud penderfyniad am eu bywyd ar yr adeg mae angen i'r penderfyniad gael ei wneud mae'n rhaid i chi **asesu** eu gallu.




**Mae asesu** yn golygu gwneud gwiriadau.



Er mwyn asesu gallu unigolyn mae'r Ddeddf yn dweud

- bod yn rhaid i chi wirio os ydynt yn gallu gwneud y penderfyniad.



- os nad ydynt yn gallu gwneud y penderfyniad, mae'n rhaid i chi ganfod a oes problem ynghylch sut mae eu hymennydd yn gweithio.

- mae'n rhaid i chi wirio os nad ydynt yn gallu gwneud y penderfyniad, oherwydd y broblem ynghylch sut mae eu hymennydd yn gweithio.



Nid yw unigolyn yn gallu gwneud penderfyniad os



- nad ydynt yn gallu **deall** y wybodaeth am y penderfyniad.

- nad ydynt yn gallu **cofio'r** wybodaeth am y penderfyniad.



- nad ydynt yn gallu meddwl am y wybodaeth a'i **defnyddio** i'w helpu i wneud y penderfyniad.

- nad ydynt yn gallu dweud wrth bobl eraill beth yw eu penderfyniad.

# Ynglŷn â budd pennaf



Mae'r Ddeddf yn dweud bod yn rhaid i unrhyw beth rydych yn ei wneud neu unrhyw benderfyniad rydych yn ei wneud ar ran unigolyn sydd â phrinder gallu fod er eu **budd pennaf**.


**Mae budd pennaf** yn golygu'r dewisiadau gorau ar gyfer eu bywyd.




Er mwyn adnabod budd pennaf unigolyn mae'r Ddeddf yn dweud bod yn rhaid i chi

- feddwl os byddent yn gallu gwneud y penderfyniad ar eu pen eu hunain os byddwch yn aros ychydig.
- eu cynnwys yn y penderfyniad.
- peidio â gwneud y penderfyniad oherwydd eu hoed, sut maent yn edrych neu sut maent yn ymddwyn.
- peidio â gwneud y penderfyniad oherwydd ei fod yn eich helpu.
- siarad â phobl sy'n eu hadnabod i ddysgu mwy am eu bywyd.
- ceisio sicrhau mai'r penderfyniad yw'r hyn y byddent yn ei ddymuno trwy feddwl am yr hyn maent yn ei ddymuno, sut maent yn teimlo a'r hyn maent yn ei gredu.
- sicrhau nad yw'r penderfyniad yn cymryd eu hawliau a'u rhyddid i ffwrdd.
- penderfynu os dylech wneud adroddiad am y penderfyniad fel y gall pobl weld pam y'i gwnaethoch.





# Ynglŷn â diogelu gofalwyr, gweithwyr iechyd a gweithwyr gofal cymdeithasol




Mae gan y Ddeddf reolau i ddiogelu gofalwyr, gweithwyr iechyd a gweithwyr gofal cymdeithasol pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ar ran pobl sydd â phrinder gallu. Gallai'r penderfyniadau fod am bethau megis gofal personol, gofal iechyd neu driniaethau.



Mae'r rheolau yn sicrhau nad yw gofalwyr, gweithwyr iechyd na gweithwyr gofal cymdeithasol yn **atebol** pan fydd ganddynt bethau i'w gwneud a allai fod yn erbyn y gyfraith fel arfer os byddant yn dilyn y rheolau yn y Ddeddf.



**Mae atebol** yn golygu y byddai'r bai arnyn nhw
pe byddai peth drwg wedi digwydd oherwydd penderfyniad a wnaethpwyd ganddynt.




Er enghraifft byddai gwario arian rhywun arall fel arfer yn groes i'r gyfraith, ond gellir ei ganiatáu ar gyfer y sawl  sydd â phrinder gallu os dilynir y rheolau yn y Ddeddf.

I gael eu diogelu gan y Ddeddf mae'n rhaid i ofalwyr, gweithwyr iechyd a gweithwyr gofal cymdeithasol




- asesu gallu'r uinigolyn.
- meddwl am eu budd pennaf.



- sicrhau bod yr unigolyn cywir yn rhoi'r gofal neu driniaeth gywir ar yr adeg gywir.
- meddwl am ba mor ddifrifol mae'r gofal neu driniaeth.




- ysgrifennu adroddiad am y penderfyniad os yw'r gofal neu driniaeth yn ddifrifol neu'n cymryd hawliau'r unigolyn i ffwrdd.
- penderfynu a ddylai **Llys** helpu i wneud y penderfyniad os yw'r gofal neu driniaeth yn ddifrifol iawn.

  Mae **Llys** yn lle swyddogol lle mae penderfyniadau'n gallu cael eu gwneud gan farnwr ar ran pobl sydd â phrinder gallu.



- meddwl am yr angen i **gyfyngu'r** unigolyn a phenderfynu a yw hyn yn degiddynt.

  **Mae cyfyngu** yn golygu atal unigolyn rhag symud mewn ffordd rydd.



- defnyddio arian sy'n eiddo i unigolyn sydd â phrinder gallu er eu budd pennaf.

# Ynglŷn â'r Llys Gwarchod





Mae'r **Llys Gwarchod** yn lle swyddogol; lle mae penderfyniadau'n gallu cael eu gwneud gan farnwr ar ran pobl sydd â phrinder gallu.

Mae'r Llys Gwarchod yn gallu



- penderfynu a oes gan unigolyn y gallu i wneud penderfyniad am eu bywyd.
- gwneud penderfyniadau am arian neu faterion personol ar ran pobl sydd â phrinder gallu, neu ddewis rhywun arall i wneud y penderfyniadau hynny.




- gwneud penderfyniadau am hawliau a rhyddid pobl sydd â phrinder gallu.
- penderfynu a yw **LPA** neu **EPA** yn **ddilys**. **Mae dilys** yn golygu cywir a chyfreithlon.

  **LPA** yw'r enw byr am **Atwrneiaeth Arhosol**.

  **EPA**yw'r enw byr am Atwrneiaeth **Barhaus**. EPAau yw'r hen fersiwn o LPAau.



- maent yn atal atwrnai rhag cael gwneud penderfyniadau ar ran unigolyn sydd â phrinder gallu.

# Ynglŷn ag Atwrneiaeth Arhosol



**Mae Atwrneiaeth Arhosol** (a elwir yn **LPAau** yn fyr) yn caniatáu i unigolyn sydd â gallu ddewis rhywun maent yn ymddiried ynddynt i wneud penderfyniadau am eu bywyd.



Mae'r unigolyn a ddewisir i wneud y penderfyniadau'n cael ei alw'n **atwrnai**.

Mae'r Ddeddf yn dweud bod yn rhaid i atwrneiod



- ddilyn yr egwyddorion statudol.
- gwirio gallu'r unigolyn.
- sicrhau bod yr hyn maent yn ei wneud er budd pennaf yr unigolyn.
- dilyn y Cod wrth wneud penderfyniad.
- gwneud penderfyniadau'n unig am bethau a ganiateir yn yr LPA.




Mae'n rhaid i LPAau gael eu **cofrestru** gyda **Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus** cyn iddynt allu cael eu defnyddio. **Mae cofrestredig** yn golygu wedi'u rhoi ar restr swyddogol.

# Ynglŷn â dirprwyon wedi'u penodi gan lys




Mae'r Llys Gwarchod yn gallu **penodi** pobl a elwir yn **ddirprwyon** i wneud penderfyniadau ar ran pobl a allai fod â phrinder gallu. **Mae penodi** yn golygu eu dewis ar gyfer y swydd.



Mae'r Llys Gwarchod yn gallu diswyddo dirprwyon os na fyddant yn gwneud eu gwaith yn dda.



Mae gan y Ddeddf wybodaeth i ddirprwyon. Mae'n dweud wrthynt beth sydd angen iddynt ei wneud, sut dylid gwirio eu gwaith a beth fydd yn digwydd os na fyddant yn gwneud eu gwaith yn iawn.




Mae'n rhaid i ddirprwyon

- ddilyn yr egwyddorion statudol.
- sicrhau bod yr hyn maent yn ei wneud er budd pennaf yr unigolyn.
- gwneud penderfyniadau'n unig mae'r Llys yn dweud y caniateir iddynt wneud.
- ysgrifennu adroddiad am yr hyn maent yn ei wneud.

# Ynglŷn ag Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol



**Mae Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol** (a elwir yn **IMCAau** yn fyr) yn gallu cael eu dewis i roi **cymorth** annibynnol i bobl sydd â phrinder gallu ac nad oes neb arall ganddynt i'w helpu.



**Mae annibynnol** yn golygu nad yw IMCAau yn gysylltiedig ag unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n ymwneud â bywyd neu ofal yr unigolyn sydd â phrinder gallu.



Mae'n golygu eu bod yn meddwl am anghenion yr unigolyn sydd â phrinder gallu'n unig.



Mae IMCAau yn sicrhau bod dymuniadau, meddyliau a theimladau pobl sydd â phrinder gallu'n cael eu clywed pan fydd penderfyniadau budd pennaf yn cael eu gwneud am eu bywydau.



Bydd y GIG neu awdurdod lleol yn dewis IMCA i gynorthwyo unigolyn sydd â phrinder gallu os oes angen i benderfyniad gael ei wneud am






- le y bydd yn byw.
- triniaeth feddygol ddifrifol.
- eu cadw mewn ysbyty am fwy na 28 niwrnod.
- eu cadw mewn cartref gofal neu gartref arall am fwy nag 8 wythnos.
- newid lle maent wedi byw eisoes am fwy na 12 wythnos.



Caniateir i IMCAau weld gwybodaeth iechyd a gofal cymdeithasol am unigolyn sydd â phrinder gallu.




Mae'n rhaid i IMCAau gael yr hyfforddiant a phrofiad cywir sy'n angenrheidiol trwy gyfraith.

# Ynglŷn â phenderfyniadau o flaen llaw i wrthod triniaeth



Penderfyniad **o flaen llaw i wrthod triniaeth** yw pan fydd unigolyn â gallu'n dweud ei fod am wrthod rhai mathau o ofal neu driniaeth y gallai fod eu hangen arnynt yn y dyfodol.




Maent yn gwneud hyn oherwydd y gallent fod â phrinder gallu i wneud penderfyniad yn y dyfodol pan fydd angen y gofal neu driniaeth arnynt.




Mae penderfyniadau o flaen llaw i wrthod triniaeth yn gallu cael eu gwneud gan bobl sy'n 18 oed neu'n hŷn.



Mae'n rhaid i benderfyniad dilys o flaen llaw i wrthod triniaeth gael ei ddilyn.

# Ynglŷn â phlant a phobl ifanc



Yn y Cod

- **mae plant** yn golygu pobl sy'n llai nag 16 oed.
- **mae pobl ifanc** yn golygu pobl sy'n 16 neu 17 oed.





Mae'r Ddeddf yn gallu cael ei defnyddio ar gyfer pobl ifanc, ac eithrio

- nid yw pobl ifanc yn gallu gwneud Atwrneiaeth Arhosol (LPA).



- nid yw pobl ifanc yn gallu gwneud penderfyniad o flaen llaw i wrthod triniaeth.

- Nid yw'r Llys Gwarchod yn gallu gwneud **ewyllys** i unigolyn ifanc.




Ewyllys **yw** cynllun swyddogol o'r hyn sy'n digwydd i eiddo unigolyn ar ôl iddynt farw.



Nid yw'r Ddeddf yn cael ei defnyddio bob amser i wneud penderfyniadau am bobl ifanc sydd â phrinder gallu. Weithiau **gofynnir i unigolyn â chyfrifoldeb rhiant** wneud y penderfyniadau.



Mae **unigolyn â chyfrifoldeb rhiant** yn golygu unrhyw un sy'n rhiant neu'n gweithredu fel rhiant i blentyn.



Nid yw'r Ddeddf yn gallu cael ei defnyddio ar gyfer plant sydd â phrinder gallu, ac eithrio

- pan fydd plentyn yn cael ei drin yn wael neu
  **ei esgeuluso'n fwriadol**.

  **Mae wedi'i esgeuluso'n fwriadol** yn golygu peidio â derbyn gofal cywir.




- mae'r Llys Gwarchod yn gallu gwneud penderfyniadau am **eiddo** neu **gyllid** plentyn sydd â phrinder gallu ac sy'n debygol o fod â phrinder gallu pan fyddant yn 18 oed.



**Mae eiddo** yn golygu'r pethau mae unigolyn yn berchen arnynt, megis adeiladau neu geir. **Mae cyllid** yn golygu'r arian sydd gan unigolyn.

# Ynglŷn â Deddf Iechyd Meddwl 1983




Yn y llyfryn hwn rydym wedi siarad am y **Ddeddf** sef Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae'r Ddeddf yn gyfraith sy'n dweud beth sy'n digwydd pan fydd pobl a phrinder gallu i wneud penderfyniadau am eu bywydau.




Mae cyfraith arall a elwir yn **Ddeddf Iechyd Meddwl 1983** (a elwir yn **MHA** yn fyr).



Mae'r MHA yn dweud beth sy'n digwydd i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae'n dweud pryd y gallant gael eu **cadw** mewn lle nad ydynt yn dymuno bod ynddo.



**Mae cadw** yn golygu cael eich cadw rhywle megis ysbyty neu orsaf yr heddlu.



Mae'r Ddeddf yn gallu cael ei defnyddio ar gyfer pobl sy'n **ddarostyngedig i'r MHA**, ac eithrio





- ni ellir defnyddio'r Ddeddf i wneud penderfyniadau am driniaeth i bobl sydd wedi cael eu cadw oherwydd yr MHA.
- nid oes rhaid i benderfyniadau o flaen llaw i wrthod triniaeth gael eu dilyn os yw pobl wedi cael eu cadw oherwydd yr MHA.
- pan fydd gan unigolyn warcheidwad oherwydd yr MHA, caniateir i'r gwarcheidwad wneud rhai penderfyniadau ar eu rhan, megis lle byddant yn byw.
- Nid oes rhaid i Eiriolwyr Galluedd Meddyliol (IMCAs) helpu i wneud penderfyniadau am driniaeth feddygol neu lle bydd unigolyn yn byw os yw'r penderfyniadau hynny'n cael eu gwneud gan ddefnyddio'r MHA.




**Mae yn ddarostyngedig i'r MHA** yn golygu bod yr MHA yn cael ei defnyddio i'ch helpu gyda'ch problemau iechyd meddwl.



Ni chaniateir i weithwyr iechyd fyth roi triniaeth a elwir yn **seicolawdriniaeth** i unigolyn sydd â phrinder gallu, hyd yn oed os byddant yn ddarostyngedig i'r MHA.

# Ynglŷn â diogelu pobl sydd â phrinder gallu




Mae **asiantaethau** sy'n diogelu pobl sydd â phrinder gallu i wneud penderfyniadau am eu bywydau.



**Mae asiantaethau** yn golygu busnesau neu sefydliadau neu wasanaethau.




Mae'r asiantaethau'n sicrhau bod pobl sydd â phrinder gallu'n cael eu trin mewn ffordd dda a theg.



Os byddwch yn meddwl nad yw unigolyn sydd â phrinder gallu'n cael ei drin mewn ffordd dda neu deg mae'n rhaid i chi ddweud wrth yr asiantaeth briodol ar unwaith.



- Os byddwch yn meddwl bod **trosedd** wedi'i chyflawni i unigolyn sydd â phrinder gallu dweud wrth yr heddlu a gwasanaethau gofal cymdeithasol.

  **Troseddau** yw pethau sydd yn erbyn y gyfraith megis dwyn neu fod yn dreisgar.



- Os byddwch yn meddwl nad yw unigolyn sydd â phrinder gallu'n derbyn gofal cywir dweud wrth y gwasanaethau gofal cymdeithasol.



- Os byddwch yn meddwl nad yw atwrnai neu ddirprwy yn gwneud eu gwaith yn gywir dweud wrth Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.






- Os byddwch yn meddwl nad yw **penodai** yn gwneud eu gwaith yn gywir dweud wrth yr **Adran Gwaith a Phensiynau**.

  Unigolyn yw **penodai** a ganiateir i gasglu budd-daliadau neu bensiynau i unigolyn sydd â phrinder gallu.

  Gallant ddefnyddio'r arian i brynu beth sydd ei angen ar yr unigolyn sydd â phrinder gallu.

# Ynglŷn ag anghytundebau



Weithiau bydd pobl yn anghytuno am yr hyn ddylai ddigwydd i unigolyn sydd â phrinder gallu a'r hyn yw'r penderfyniad gorau ar gyfer eu bywyd.



- Ceisio datrys yr anghytundeb cyn gynted â phosibl fel nad yw'r broblem yn gwaethygu.
- Sicrhau bod rhywun yn siarad ar ran yr unigolyn sydd â phrinder gallu.
- Defnyddio **cyfryngu** os bydd hyn yn helpu. **Cyfryngu** yw pan fydd unigolyn annibynnol yn helpu i ddatrys anghytundeb.




- Os byddwch yn bryderus am iechyd neu ofal cymdeithasol mae unigolyn sydd â phrinder gallu'n ei gael dod o hyd i'r ffordd gywir i gwyno.
- Osnad yw'r anghytundeb yn gallu cael ei ddatrys yn hawdd gallwch ofyn i'r Llys Gwarchod ei ystyried.




Mae rhai penderfyniadau mae angen i'r Llys Gwarchod eu gwneud bob amser.

# Ynglŷn â gwybodaeth bersonol



**Gwybodaeth bersonol** yw unrhyw beth sy'n dweud wrth bobl eraill pwy ydych chi, megis eich enw neu gyfeiriad e-bost.



Mae'r Cod yn dweud pa wybodaeth bersonol y caniateir i chi ei gweld neu ei rhannu os byddwch yn gweithio gyda neu'n gofalu am unigolyn sydd â phrinder gallu.

- Os byddwch yn atwrnai neu'n ddirprwy gallwch ofyn i weld gwybodaeth bersonol am yr unigolyn ar yr amod y bydd yn eich helpu i wneud y penderfyniad gorau ar gyfer eu bywyd.



- os na fyddwch yn atwrnai neu'n ddirprwy gallech weld neu rannu gwybodaeth bersonol am unigolyn ond bydd yn dibynnu ar beth yw'r penderfyniad.



- Os byddwch yn weithiwr iechyd neu'n weithiwr gofal cymdeithasol gallwch rannu gwybodaeth bersonol am unigolyn os yw er eu budd pennaf.


# Ynglŷn â phrosiectau a chapasiti ymchwil




**Ymchwil** yw gwaith sy'n cael ei wneud i ganfod gwybodaeth newydd am bwnc. **Ymchwilwyr** yw'r bobl sy'n gwneud y gwaith.



Mae'n bwysig gwneud ymchwil gyda phobl sydd â phrinder gallu.




Mae'n ein haddysgu ynghylch gwybodaeth bwysig ac yn ein helpu i ddeall eu bywydau'n well.




Mae'n rhaid i ymchwilwyr gael **cydsyniad** gan bobl maent yn gweithio â nhw. **Cydsyniad** yw pan fyddwch yn cytuno'n swyddogol i wneud rhywbeth.



Mae gan y Ddeddf wybodaeth i ymchwilwyr sy'n dymuno gweithio gyda phobl nad ydynt yn gallu rhoi cydsyniad oherwydd eu bod â phrinder gallu.




Mae gan y Ddeddf reolau i ddiogelu pobl sydd â phrinder gallu neu a allai fod â phrinder gallu i gydsynio i gymryd rhan mewn ymchwil.



I gael eu diogelu gan y Ddeddf mae'n rhaid i ymchwilwyr

- gael cymeradwyaeth swyddogol.
- gwybod pryd fydd yr ymchwil yn cael ei gynnal.
- gwneud ymchwil da.
- meddwl am deimladau'r bobl sydd â phrinder gallu.
- meddwl am ffyrdd eraill i ddiogelu pobl sydd a phrinder gallu.
- dysgu sut i **gyfathrebu** â phobl sydd â phrinder gallu.
- Dysgu sut i **gyfathrebu** â gofalwyr a phobl eraill sy'n bwysig i bobl sydd a phrinder gallu.





**Mae cyfathrebu** yn golygu siarad â phobl mewn ffordd dda a chlir.